# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd
dydd Llun, 22 Mai 2023 am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** JF, BH, LJ, EJ, JAR (Cadeirydd) KT, WO, RWR (clerc)

Ymddiheuriadau: RJ, AP.

**2. Datgan Diddordeb:** KT eitem 6.

**3. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd 2023-24.**

Etholwyd JAR yn Gadeirydd, EJ yn Is-Gadeirydd.

**4. Derbyn cofnodion cyfarfod Ebrill 2023**

4.1 Nodwyd fod angen un newid– y clerc wedo gyrru copi oedd wedi gadael allan diolch y cadeirydd i AP am gofnodi y cyfrafod. Yn dilyn yr addasiad yma cytunwyd eu bod yn gywir– JF yn cynnig, BH yn eilio.

**5. I ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodin hyn.**

5.1 JAR yn cadarnhau fod gwaith torri'r coed yn y fynwent wed ei wneud, ond bod angen ychydig mwy un ochor i'w wneud yn gyfartal.

5.2 GLJones wedic adarnhau na fyddent yn gallu ymgyryd a'r gwaith i drwsio y ffens. I gysylltu a Mona F&T, Grays Steel Fabrication a Rhion Tai Uchaf.

5.3 Cadarnhawyd fod ffurfeln i archebu bin i'r parc wedi ei ddycwelyd, ond yn y cyfamser fod y bin du wedi ymddangos yn ol.

5.4 Derbyniwyd ymateb gan CSYM ynglyn ac ail osod twmpathau yn Bron y Graig, yn ail adrodd eu ymateb balenorol (polisi CSYM i beidio ac ail osod twmathau) Y clerc i nodi anfodlonrwydd y Cyngor.

5.5 Derbyniwyd ymateb gan CSYM ynglyn a'r bysiau, ond dim cadarnhad lle mae rhif 4 yn stopio.

5.6 Cadarnahwyd nad oes unrhyw drefniant mewn lle ar hyn o bryd yn y Neuadd Goffa ar gyfer dathliad 100 mlwydd, ond bydd rhywbeth i'w gadarnhau yn hwyrach yn y flwyddyn.

5.7 Derbyniwyd un enw ar gyfer un sedd wag y Cyngor, disgwyl cadarnhad gan CSYM os bydd angen hysbysiad.

5.8 Cadranhawyd fod CSYM yn ymwybodol o'r broblem gyda diogwlech ac ymddngosiad Llywelyn Lodge ac yr Hen Siop Bapur, ac maent yn bwriadu ysgrifennu at y perchnogion.

5.9 CSYM wedi cadarnhau y byddent yn edrych ar y gor dyfiant dros ffordd i'r siop ar y 12/6/2023.

5.10 Ysgolion Gynradd ac uwchradd yn gefnogol o ymgyrch i addysgu plant y pentref i beidio taflu sbwriel.

5.11 CSYM yn nodi na fyddent yn edrych ar newid cyflymder lon Dalar nes ar ol mis Medi pan fydd ymgyrch newid pob pentref i 20 mya wedi ei gyflawni.

**6. Deddf cynllunio a gwlad.**

6.1 Llythyr gan CSYM ynglyn a ffordd fynediad Fferm Penmynydd. Y Cyngor yn cytuno i'r cais i'w drosglwyddo i'r perchennog.

**7. Gohebiaeth i'w adolygu.**

7. 1 Llythyr gan Clwyd Alan yn gwahodd enwau ar gyfer y datblygiad newydd ger Tre Angharad. I roi gwadd i gyfarfod i drafod ymhellach.

**8. Taliadau i'w gwneud.**

8.1 North Wales Tree Solutions £600

**9. Eitemau ddaeth i sylw'r cynghorwyr.**

9.1 Cytunwyd i ymateb i Ffrindau Bodedern unwaith eto yn gofyn am gopi o fantolen.

9.2 LJ yn nodi safon isel iawn o lenwi tyllau.

9.3 LJ yn nodi anfodlonrwydd gyda newid enwau tai cymraeg i'r saesng. I ysgrifennu at Ned Michael, CSYM.

9.4 JAR yn nodi fod arwydd Stryd yr Eglws wedi dod i lawr– I gysylltu a CSYM.

9.5 JAR yn gofyn os oes amserlen i CSYM ymateb i ymholiadau. KT yn nodi byddai ymateb gan Dyfan Jones, CSYM.

**10. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

26 /6/ 2023